## CYPE(5)-20-20 – Papur i'w nodi 3

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Dyddiad: 21 Gorffennaf 2020

Pwnc | Subject: **Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)**

Annwyl Kirsty,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 14 Gorffennaf i roi tystiolaeth fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

Oherwydd cyfyngiadau amser, ni lwyddodd yr Aelodau i ofyn yr holl gwestiynau yr oeddem am eu gofyn ichi am ddarpariaethau'r Bil sy'n ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael ymateb ysgrifenedig i'r cwestiynau isod, i lywio ein gwaith craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

- Nid yw'r Bil yn gwneud unrhyw ddarpariaeth i rieni allu tynnu eu plant yn ôl o'r elfennau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg nac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. A ydych yn fodlon bod hyn yn unol â hawliau rhieni i sicrhau bod eu hargyhoeddiadau crefyddol ac athronyddol yn cael eu parchu o dan Brotocol 1 Erthygl 2 (hawl i addysg) a'u hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd o dan Erthygl 9 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ?

- Pa fesurau diogelwch sy'n bodoli yn y Bil (neu'n ehangach) i geisio sicrhau bod cwricwla Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel ei gilydd yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd sy'n wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol?

- Pam nad yw'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol ddylunio ac addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gan ystyried y maes llafur y cytunwyd arno?

- A fydd yn ofynnol i ysgolion sydd â chymeriad crefyddol ddylunio dau faes llafur; un enwadol a'r llall gan ystyried y maes llafur y cytunwyd arno? Os felly, sut y bydd ysgolion yn gallu cyflawni hyn yn ymarferol lle mae'n ofynnol iddynt addysgu'r ddau faes llafur?

- A oes perygl, o gofio bod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ddisgybl gael addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg anenwadol mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyir pan fydd y rhiant yn

gofyn am y ddarpariaeth honno, y gallai rhai ysgolion â chymeriad crefyddol dorri amodau eu gweithredoedd ymddiriedolaeth yn y pen draw pan fydd mwyafrif y rhieni yn gwneud cais o'r fath?

- A allwch chi gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal ymgynghoriad pellach ar y canllawiau statudol i awdurdodau lleol ynghylch meysydd llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a bod yr ymgynghoriad cyfredol (a ddaeth i ben ar 28 Gorffennaf 2020) yn gam rhagarweiniol i hyn? Pryd ydych chi'n rhagweld cynnal unrhyw ymgynghoriad ychwanegol ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg?

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.